Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig ar Hawliau Plant Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig: Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

**Adran: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Gweinidog sy'n gyfrifol: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dyddiad dechrau: 24 Ebrill 2023**

**Am ragor o wybodaeth:**
**E-bost: HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru**
**Cyfeiriad: Is-adran Gofal Sylfaenol - Cangen Polisi Awdioleg ac Offthalmig, Llywodraeth Cymru, 4ydd Llawr - Dwyrain Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ**

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperddolen**

- **Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio darpariaeth gwasanaethau offthalmig yng Nghymru ac mae'n ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru'r rheoliadau presennol i wella mynediad at wasanaethau iechyd llygaid mewn gwasanaethau sylfaenol, gwasanaethau yn y gymuned, a gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cyd â'r cynigion sy'n gydnaws â *Chynllun Cydraddoldeb Strategol* Llywodraeth Cymru 2020 – 2024 sy'n datgan ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ynghyd â'r prif gamau gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn canolbwyntio yn fwy penodol ar unrhyw effeithiau ar blant a phobl ifanc, boed yn rhai a fwriadwyd ai peidio, ac a dorrwyd unrhyw hawliau.

Y cynnig allweddol yw ehangu'r gwasanaethau llygaid sy'n cael eu darparu ar y stryd fawr gan optometryddion a chynyddu mynediad at wasanaethau. Mae amcangyfrifon a nodwyd yn Null Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol yn awgrymu y gellid bod wedi osgoi colli golwg yn hanner yr achosion a adroddwyd amdanynt, gan atgyfnerthu pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'n hanfodol felly ehangu'r ddarpariaeth mewn gofal sylfaenol lle mae gweithlu medrus eisoes yn bodoli i gefnogi Gwasanaethau Llygaid Mewn Ysbytai fel y manylir arno yn y ddogfen ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r asesiad hwn.

Bwriad diwygio gwasanaethau, yn amodol ar yr ymgynghoriad, yw cyflymu mynediad at ofal clinigol o fewn gwasanaethau optometreg ar draws pob oedran. Bydd hyn yn golygu buddion cysylltiedig mewn perthynas â mynd i'r afael yn gynt â phryderon gofal llygaid plant, pobl ifanc, ac oedolion, o ystyried yr amrywiaeth gynyddol o wasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn agosach i'r cartref gan ymarferwyr gofal llygaid yn y maes gofal sylfaenol.

Mae trosolwg o'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol wedi datgelu anghyfartaledd o ran y cymorth a gynigir i bobl o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd o dan ofal Awdurdod Lleol. Mae plant dan 16 oed (gan gynnwys y rhai mewn gofal) yn gymwys i gael prawf golwg y GIG a thaleb ar gyfer cyflenwi, trwsio, a darparu offeryn optegol newydd yn lle'r hen un. Mae pobl ifanc 16/17 oed sy'n gadael gofal, neu y mae Llywodraeth Leol yn cyfrannu at eu cynhaliaeth, yn gymwys i gael prawf golwg y GIG a thaleb ar gyfer cyflenwi offeryn. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys i gael taleb ar gyfer trwsio neu gael offeryn optegol newydd yn lle'r hen un.

I ddatrys y mater, bydd y rheoliadau a adwaenir dros dro yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023 yn sicrhau bod pobl ifanc dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd mewn gofal, yn cael mynediad at yr holl hawliau sy'n ymwneud â gofal llygaid gan gynnwys taleb ar gyfer trwsio neu gael offeryn optegol newydd (yn ogystal â'r darpariaethau y maen nhw eisoes yn gymwys i'w cael o dan y ddeddfwriaeth a'r trefniadau presennol).

I ymgorffori ymhellach hawliau plant a phobl ifanc yn y gyfraith, rydym yn bwriadu cynnwys dyletswydd newydd yn y telerau gwasanaeth sy'n berthnasol i gontractwyr, a fyddai'n gorfodi yn gyfreithiol y contractwyr sy'n darparu profion golwg y GIG ac yn gwerthu sbectols i sicrhau bod sbectol sylfaenol ar gael i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed a hyd at 18 oed i'r rhai sydd mewn addysg amser llawn. Bydd y ddyletswydd hon yn berthnasol i bobl eraill hefyd sy'n gymwys i gael taleb tuag at gost sbectol.

Er mwyn hyrwyddo mynediad teg ymhellach, bydd yn ofynnol i gontractwyr y GIG gytuno ar oriau craidd ar gyfer gwasanaethau clinigol o dan y telerau gwasanaeth. Dyma'r oriau pan fydd yr ystod lawn o lefelau gwasanaeth 1 a 2 ar gael a bydd y rhain yn cael eu cytuno rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr, ac fe'u hysbysebir i'r cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae hyn yn wahanol i'r trefniant presennol lle mae practisau optometreg yn gallu penderfynu ar lefel y cymorth clinigol craidd a gynigir yn ystod eu horiau agor.

Yn benodol, cynigir mai'r unig ffordd y gall Contractwr wrthod darparu gwasanaethau i berson cymwys o dan y Contract yw os oes ganddo sail resymol dros wneud hynny, ac ni all y sail honno ymwneud ag **oed** neu gyflwr offthalmig unigolyn nac unrhyw gyflwr meddygol cysylltiedig.

Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau diogelu a ddarperir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n golygu bod gwahaniaethu neu driniaeth annheg ar sail rhai nodweddion personol, fel oedran, yn erbyn y gyfraith ym mhob achos bron.

- **Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

Gofynnir am farn pobl ifanc drwy ymarfer ymgynghori sy'n dechrau ar 24 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 19 Mehefin. Bydd yr holl fanylion sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad, gan gynnwys y dogfennau asesu cysylltiedig, a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei gyhoeddi hefyd ar *wefan Hawliau Plant*. Bydd canlyniad yr ymarfer ymgynghori'n cael ei rannu â phob parti sydd â diddordeb drwy Lywodraeth Cymru a fydd yn cynnwys unrhyw adborth yn ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Yn ogystal, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar fersiwn gyhoeddedig yr Asesiad hwn a'i ddiweddaru gan ystyried unrhyw sylwadau cyn ailgyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

- **Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar gyfer plant a phobl ifanc a diben y ddarpariaeth newydd a amlygir yn y ddogfen hon yw sicrhau'n fwriadol cymorth cyfartal i'r rhai o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd dan ofal Awdurdod Lleol. Bydd y rheoliadau arfaethedig yn sicrhau bod gan bobl ifanc o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd mewn gofal hawl i dalebau ar gyfer trwsio neu gael offeryn optegol newydd yn lle hen un (yn ogystal â'r darpariaethau y maent eisoes yn gymwys i'w cael o dan y ddeddfwriaeth a'r trefniadau presennol).

Mae swyddogion wedi ystyried sut mae'r polisi arfaethedig hwn yn effeithio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yr Erthyglau a allai fod yn berthnasol yw Erthyglau 1, 2, 3, 4, 20, 25 a 27 a daethant i'r casgliad nad oes unrhyw effaith negyddol yn cael ei rhagweld ar Hawliau'r Plentyn gan y bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi cydraddoldeb i bawb o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd mewn gofal gan y bydd ganddynt hawl i'r holl hawliau sy'n ymwneud â gofal llygaid. Mae gweddill yr Erthyglau wedi cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn berthnasol.

| **Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu Brotocol Dewisol** | **Cynyddu (X)** | **Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 1: Mae gan bawb dan 18 oed yr holl hawliau yn y Confensiwn hwn.<br><br>Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb | X<br><br>X | | Bydd Rheoliadau drafft arfaethedig Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023 yn sicrhau bod gan bobl o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd mewn gofal hawl i bob un o'r hawliau sy'n ymwneud â gofal llygaid gan gynnwys taleb i drwsio neu gael offeryn optegol newydd (yn ogystal â'r darpariaethau y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| beth bynnag fo'u hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag y maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. | | | maent eisoes yn gymwys i'w cael o dan y ddeddfwriaeth a'r trefniadau cyfredol). |
| Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | |
| Erthygl 4: Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant. | X | | |
| Erthygl 20: Rhaid i blant na allant dderbyn gofal gan eu teulu eu hunain dderbyn gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith. | X | | |
| Erthygl 25: Dylid cynnal adolygiad rheolaidd o sefyllfa plant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni. | X | | |
| Erthygl 27: Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd sy'n methu â fforddio darparu hyn. | X | | |